



Tlodi ac allgáu cymdeithasol: Adolygiad o addysg bellach a sgiliau

Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol ledled y byd. Yn rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg Llundain (LSE) i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ar bolisiau a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r canfyddiadau ar addysg bellach (AB) a sgiliau.

Cyflwyniad

Mae gan y sector addysg bellach (AB) lawer i'w gyfrannu at strategaeth i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

Mae yna dystiolaeth dda ar gael y gall addysg a hyfforddiant galwedigaethol ôl-16 a dysgu oedolion wella canlyniadau cyflogaeth a chynnig cyfleoedd hanfodol ar gyfer cynnydd i ddysgwyr a gweithwyr difreintiedig. Mae systemau gwahanol yn dangos gallu gwahaniaethol i gyflawni'r manteision hyn.

Er mwyn i'r sector AB feithrin cynhwysiant, yr elfennau allweddol yw:

- Strwythurau addysgol hyblyg ac agored, e.e. cysylltu AB ac addysg uwch (AU), a chysylltu gweithgareddau ffurfiol a heb fod yn ffurfiol o fewn AB.
- Llwybrau safonedig sy'n arwain at lefelau digon uchel o gymwysterau, gyda dulliau sicrhau ansawdd cydnabyddedig.

Mae llwybrau cymwysterau sy'n galluogi datblygu cymwyseddau galwedigaethol eang yn gwella trosglwyddedd sgiliau.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

O ystyried y newidiadau i'r farchnad lafur (e.e. digideiddio sy'n debygol o effeithio ar dasgau'r rhan fwyaf o swyddi), bydd polisiau addysg a hyfforddiant, a dysgu gydol oes, yn ganolog i sicrhau bod galwadau sylweddol am sgiliau yn cael eu bodloni.

Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar gynllunio a darparu addysg ôl-orfodol ac AB, a'u cyfraniad at leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Yn y cyd-destun hwn, deellir bod 'addysg ôl-orfodol' yn cwmpasu addysg uwchradd uwch ac addysg drydyddol, sy'n cynnwys AU ac AB, yn ogystal â dysgu oedolion. Mae'r adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar AB, gan gynnwys addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol (TVET), er yr eir i'r afael â'r berthynas rhwng AB ac AU hefyd.

Cynllun y system addysg a hyfforddiant galwedigaethol

Mae systemau addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn amrywio'n fawr, a gallant gael eu nodweddu gan y canlynol:

- Rhaglenni cyffredinol a galwedigaethol ysgolion sydd mewn sefydliadau gwahanol (y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Ffrainc, y Ffindir, Gwlad Groeg, yr Eidal, Japan, Gwlad Pwyl a Rwsia);
- Darpariaeth gyffredinol a galwedigaethol gynhwysfawr ysgolion sydd mewn un sefydliad (Canada, Norwy, Sweden ac Unol Daleithiau America);
- Addysg gyffredinol mewn ysgolion a phrentisiaethau Systemau Deuol a olrheindir (Awstria, yr Almaen a'r Swistir); a
- Y defnydd o systemau cymysg (Cymru, Awstralia, Gwlad Belg, Denmarc, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Iwerddon, yr Alban, Sbaen, yr Iseldiroedd a Seland Newydd).

Mae gwledydd Llychlynnaidd, a gwledydd â phrentisiaethau Systemau Deuol (lle mae pobl ifanc yn dysgu trwy gyfuniad o hyfforddiant 'yn y gwaith' ac yn yr ystafell ddosbarth), yn arbennig o effeithiol ar gyfer meithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhlith pobl ifanc 15 i 27 oed, tra bo gwledydd â systemau cymysg (e.e. Cymru) yn cofnodi gostyngiad cymharol yn y sgiliau hyn.

Esbonnir y ddynmeg hon gan y ffaith bod y system yn dameidiog, elfen a nodweddir gan amrywiaeth ddrislyd o raglenni galwedigaethol byr sydd weithiau o ansawdd isel, ac sydd â chysylltiadau gwan rhwng hyfforddiant yn y gweithle a'r ystafell ddosbarth, a diffyg dulliau sicrhau ansawdd digonol a rennir ar gyfer hyfforddiant yn y gweithle.

Dengys tystiolaeth ryngwladol effeithiau byrdymor cadarnhaol TVET ar bontio o'r ysgol i'r gwaith, gan gynnwys yn achos aelodau o deuluoedd economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig. Yn y DU, mae statws y swyddi y mae myfyrwyr galwedigaethol yn eu cael yn is. Mae hyn yn debygol o fod yn ganlyniad i fyfyrwyr economaidd-gymdeithasol is yn hunanddethol rhaglenni galwedigaethol, a'r ffaith bod myfyrwyr addysg uwchradd uwch yn fwy tebygol o fynd i addysg uwch a chael lefelau addysg uwch.

Ceir tystiolaeth bod manteision cychwynnol y farchnad lafur i fyfyrwyr galwedigaethol yn

gostwng dros amser. Gall y gosb hirdymor hon fod yn heriol wrth i'r oedran ymddeol godi gan y bydd canlyniadau cyflogaeth gwaeth yn wynebu gweithwyr yn ddiweddarach yn eu bywydau gweithio.

Mae rhai astudiaethau'n canfod bod manteision cyflogaeth yn gostwng yn gyflymach mewn systemau seiliedig ar waith nag mewn systemau TVET yn yr ysgol, sy'n awgrymu y gallai caffael sgiliau cul, swydd-benodol gynyddu'r risg y bydd llai o alw am y sgiliau hynny, tra bo sgiliau trosglwyddadwy yn fwy tebygol o hyrwyddo hyblygrwydd gweithwyr a'u gallu i addasu. Mae'r manteision hyn yn gostwng llai mewn systemau lle mae'r cysylltiad rhwng addysg alwedigaethol a galwedigaeth benodol ar ei gryfaf, megis yn yr Almaen.

Gall buddsoddiad parhaus cyflogwyr mewn hyfforddiant yn y gwaith liniaru gwerth gostyngol addysg alwedigaethol, a gallai systemau o'r fath fod mewn gwell sefyllfa i ddiogelu manteision cyflogaeth. Ffactorau sy'n cyfrannu at feithrin sgiliau yw cwricwla craidd safonol, cyfraddau cyfranogiad uchel, a chwblhau addysg a hyfforddiant uwch mewn ysgolion uwchradd.

Gall parch cydradd rhwng addysg academiaidd a galwedigaethol hefyd gefnogi'r gwaith o feithrin sgiliau. Mae gwledydd sydd â thraddodiadau galwedigaethol gwan yn fwy tebygol o gyflawni hyn trwy ddatblygu systemau mwy integredig yn yr ysgol, systemau sy'n cyfuno rhaglenni cyffredinol a galwedigaethol mewn un sefydliad â fframweithiau arholi integredig. Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi dadansoddiadau o system Cymru sy'n argymhell bod llwybrau clir, safonedig yn arwain at gymwysterau lefel 3 neu uwch.

Mae 'Systemau Deuol', fel y'u gelwir, yn cyfuno safoni cymharol yn y cwricwla sgiliau craidd a hyd rhaglenni, a pharch cymharol gyfartal rhwng y llwybrau cyffredinol a galwedigaethol. Yn gyffredinol, ystyrir bod prentisiaethau yn uchel eu hansawdd, ac maent yn denu llawer o fyfyrwyr ar draws yr ystod gallu – mae Awstria, yr Almaen a'r Swistir yn gweld traean neu ragor o bobl ifanc yn cymryd rhan ynddynt.

Yn bwysig, yn y gwledydd hyn dangosir bod addysg ôl-orfodol ac uwchradd uwch yn cynyddu anghydraddoldebau addysgol ac yn lleihau anghydraddoldebau o ran sgiliau. Mae'r System Ddeuol yn fwy effeithiol na TVET mewn ysgolion o ran canlyniadau cyflogaeth.

Dim ond os oes yna gefnogaeth sefydliadol sylweddol a derbyniad gan weithredwyr mawr y gellir sefydlu systemau TVET mewn modd cynaliadwy. Mae partneriaethau cymdeithasol cryf yn golygu bod cyflogwyr ac undebau yn cymryd rhan weithredol mewn prosesau sicrhau ansawdd a pherthnasedd hyfforddiant yn y gwaith. Mae Systemau Deuol wedi llwyddo i sicrhau cyfranogiad busnesau mawr a bach, er enghraifft trwy ymgysylltu â busnesau bach a chanolig (BBaChau), megis yn y gwledydd Llychlynaidd.

Fodd bynnag, nid yw trosglwyddiadau polisi yn syml – mae amodau'r System Ddeuol, megis partneriaethau cymdeithasol a seilwaith sectoraidd cryf, wedi cael eu tanseilio ers tro ym Mhrydain.

Mae'r Systemau Deuol hyn yn cynnwys ystod ehangach o bynciau academiaidd ac addysg ddinesig na modelau 'sgiliau craidd' sy'n canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd. Mae hyfforddiant deuol effeithiol sydd wedi'i gynllunio'n dda yn ategu sgiliau technegol cwmni-benodol a geir trwy ddysgu yn y gwaith mewn cwmni hyfforddi â sgiliau cyffredinol sy'n drosglwyddadwy ledled cyflogwyr.

Gellir gwella cynwysoldeb rhaglenni a phrentisiaethau ôl-16 trwy ddiwygio gofynion mynediad.

Hybu cyfranogiad mewn dysgu oedolion

Mae poblogaethau sy'n heneiddio, gofynion economi fyd-eang a newid technolegol wedi arwain at gydnabyddiaeth eang o'r angen am systemau sy'n hyblyg ac sy'n cefnogi datblygiad parhaus gweithwyr trwy gydol eu bywydau

gweithio. Ar yr un pryd, nid yw cyfraddau cyfranogiad uwch o ran dysgu oedolion o reidrwydd yn arwain at anghydraddoldebau cymdeithasol/addysgol is mewn cyfranogiad.

Mae yna dystiolaeth ym mhob gwlad o 'effaith Matthew' (cronni mantais), fel y'i gelwir, lle mae'r bobl hynny sydd â'r crynhoad mwyaf o addysg a sgiliau yn cyfranogi mwy mewn cyfleoedd dysgu na'u cyfoedion llai breintiedig. Mae yna hefyd dystiolaeth ar gael fod cyflogwyr yn tueddu i gefnogi gweithwyr sydd eisoes yn fedrus i ddatblygu cymhwysedd. Mae hyn yn awgrymu bod rhyw fath o ymyriad a chymorth cyhoeddus yn ofynnol er mwyn i'r rhai dan anfantais elwa o'r rhaglenni hyn.

Mae yna wahaniaethau mawr rhwng cyfranogiad mewn dysgu oedolion ar draws gwledydd. Mewn gwledydd Llychlynaidd ac yng Nghanada a'r Unol Daleithiau, cyflawnodd dros chwarter y boblogaeth eu cymhwyster uchaf pan oeddent yn fyfyrwr yn ystod eu hoedolaeth. Mae dysgu oedolion trefnedig a gefnogir gan gyflogwyr hefyd yn tyfu'n gyflym mewn llawer o wledydd.

Mae'r hyn sy'n gweithio i sicrhau mwy o gyfranogiad ymhlith grwpiau difreintiedig yn llai clir. Er enghraifft, nid yw gwariant ar les yn unig yn esbonio pam mai gwledydd Llychlynaidd yw'r mwyaf llwyddiannus o ran estyn cyfleoedd dysgu oedolion trefnedig i ddysgwyr difreintiedig, a pham mai nhw sydd â'r lefelau uchaf o gyfranogiad yn gyffredinol. Dengys gwledydd sydd â gwariant isel lai o gyfranogiad cyffredinol a llai o gyfranogiad ymhlith y mwyaf difreintiedig, fel ei gilydd. Mae yna eithriadau, gyda rhai gwledydd (e.e. yr Iseldiroedd) yn mwynhau cyfranogiad a dosbarthiad eang, er gwaethaf gwariant isel; a gwledydd eraill (e.e. Awstria, Gwlad Belg, Ffrainc a'r Almaen) ddim yn gweld cyfranogiad ehangach ymhlith grwpiau difreintiedig, er gwaethaf gwariant uchel.

Mae astudiaethau cymharol yn awgrymu bod strwythurau addysg agored a hyblyg yn bwysig i ffurfio systemau mwy cynhwysol ac i ehangu cyfranogiad i grwpiau difreintiedig. Er enghraifft, mae yna gysylltiadau cryf rhwng natur agored systemau addysg a'r gyfradd gyflogaeth ymhlith myfyrwyr aeddfed (a ddiffinnir weithiau yn

fyfyrwyr 'anhraddodiadol') sy'n dychwelyd i addysg ar ôl oedi cyn ei chwblhau. Gall systemau agored addasu'n well i anghenion gweithwyr a gwella allgymorth trwy gysylltu gweithgareddau dysgu oedolion heb fod yn ffurfiol â chymwysterau ffurfiol (e.e. trwy gydnabod dulliau dysgu blaenorol).

Mae sefydlu'r cysylltiadau hyn yn cynyddu cymhelliant i ymgymryd â hyfforddiant oherwydd bod rhanddeiliaid allweddol (e.e. cyflogwyr) yn cydnabod cymwysterau ffurfiol cyffredin, ond hefyd am eu bod yn lleihau'r stigma posibl ymhlith dysgwyr sy'n gysylltiedig â sefydlu systemau cyfochrog, gwahanol. Mewn system agored, gall rhaglenni marchnad lafur gweithredol hefyd gyfrannu at gyfranogiad ehangach pan gânt eu cynllunio mewn modd sy'n golygu y gallant sicrhau mynediad at ddysgu oedolion trefnedig ac arwain at gymwysterau ffurfiol.

Camau gweithredu addawol

Daw'r adolygiad i ben gyda chymau gweithredu addawol i'w hystyried yng nghyd-destun Cymru, a'r rheiny'n rhai sy'n deillio o'r dadansoddiad o'r llenyddiaeth ryngwladol:

Gall **sicrhau mwy o barch cydradd rhwng addysg academiaidd a galwedigaethol** gefnogi rôl AB o ran gwella cyfleoedd bywyd grwpiau difreintiedig. Fodd bynnag, mae angen newidiadau systemig, gan gynnwys:

1. Ailgydbwyso adnoddau rhwng AB ac AU a rhwng astudiaethau llawn-amser a rhan-amser.

- Mae angen i ddulliau ariannu gefnogi'r broses o gaffael cymwysterau ar lefel

uwch (e.e. lefelau 4 a 5), gan fynd ati ar yr un pryd i gynnal hyblygrwydd ac opsiynau a all ddarparu gwell cymorth i ddysgwyr difreintiedig.

2. Gall cysylltiadau o fewn AB (e.e. rhwng gweithgareddau ffurfiol a rhai heb fod yn ffurfiol), a rhwng AU ac AB, bontio'r bwch rhwng sectorau.
 - **Gall system integredig gyflwyno'r natur agored a'r athreiddedd sy'n angenrheidiol er mwyn cynnwys mwy o grwpiau difreintiedig.** Gall prosesau syml a gwasanaethau cyngor a chymorth digonol gynorthwyo dysgwyr ymhellach i lywio'r system.
3. Mae llwybrau cymwysterau sy'n galluogi datblygu **cymwyseddau galwedigaethol eang** yn gwella trosglwyddedd sgiliau, a gallant helpu i wneud addysg alwedigaethol yn berthnasol i ystod o feysydd gyrfäol.
4. Gellir gwella cynwysoldeb rhaglenni a phrentisiaethau ôl-16 trwy ddiwygio **gofynion mynediad** (e.e. yn gysylltiedig â graddau penodol yng nghyfnod allweddol 4), gan fod y system gyfredol yn peryglu eithrio'r rhai sy'n fwy tebygol o elwa.
5. Mae **dulliau sicrhau ansawdd** yn hanfodol er mwyn ymateb i bryderon cyflogwyr a dysgwyr ynglŷn â pherthnasedd, ansawdd a natur drosglwyddadwy cymwysterau galwedigaethol, sy'n dylanwadu ar gyfranogiad defnyddwyr ac ymgysylltiad cyflogwyr.

Rhagor o wybodaeth

I gael yr adroddiad llawn, gweler Bucelli, I., a McKnight, A. (2022). *Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar addysg bellach a sgiliau*. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.



Ynghylch Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, yn rhan o Brifysgol Caerdydd ac yn aelod o What Works Network y Deyrnas Unedig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dan Bristow

+44 (0)29 2087 5345

dan.bristow@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP



Economic
and Social
Research Council



Llywodraeth Cymru
Welsh Government